**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Craffu Cymunedau

**Dyddiad y Cyfarfod:** 12fed Ebrill 2012

**Aelod Arweiniol/Swyddog:** Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu a Chymunedau

**Awdur yr Adroddiad:** Cydgysylltydd Prosiect Gweddnewid Busnes

**Teitl:** Dod yn Agosach at y Gymuned

---

## 1. Beth yw byrdwn yr adroddiad?

Bwriad yr adroddiad yw rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar gynnydd y gwaith sy'n cael ei wneud gan Fwrdd Rhaglen Dod yn Agosach at y Gymuned.

## 2. Pam cyflwyno'r adroddiad hwn?

Rhoi diweddariad ar gynnydd y rhaglen ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 27ain Tachwedd 2011.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn trafod cynnwys yr adroddiad, yn gwneud sylwadau ac yn parhau i gefnogi Cynllun Gweithredu 'Dod yn Agosach at Gymuned' sydd wedi ei ddiweddaru (Atodiad 1 ynghlwm).

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Penderfynodd y pwyllgor craffu ar 27ain Tachwedd fel a ganlyn:-

**PENDERFYNWYD –** *bod y Pwyllgor:-*
*(a) yn derbyn a chydnabod cynnwys yr adroddiad;*
*(b) yn parhau i gefnogi gwaith parhaus mewn perthynas â chynllun gweithredu 'Dod yn Agosach at y Gymuned' a meysydd blaenoriaeth*:-

- *Cynrychiolaeth ac Ymgysylltiad – sut i gysylltu â chymunedau*
- *Cyflwyno Gwasanaeth – datblygu'r diwylliant a'r agweddau priodol.*
- *Datblygu Cymunedol – Cymuned, Cyfoethogi a Grymuso;*

*(c) yn ystyried sylwadau a phryderon yr aelodau fel yr amlinellwyd yn ydrafodaeth, a*
*(ch) yn monitro'r cynnydd a gafwyd o ran gweithredu'r cynllun yn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2012.*

4.2 Mae'r Cynllun Gweithredu yn cynnwys tri maes blaenoriaeth, er bod y camau nawr wedi eu newid i adlewrychu sylwadau a phryderon yr aelodau, a godwyd yn y cyfarfod ym mis Hydref 2011, gan gynnwys y CRM ac mae camau priodol wedi eu cymryd i ddelio â'r pryderon hynny. Mae'r sylwadau ar yr angen am adfywio gwledig hefyd wedi eu hystyried ac mae'r cynllun gweithredu nawr yn cynnwys cam i ddatblygu strwythur i wella'r berthynas gyda'r gymuned fusnes. Mae aelodau gwledig hefyd wedi cael cais i gadarnhau'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer datblygiad yn eu hardaloedd hwy. At hyn, mae nifer o'r camau bellach wedi eu cwblhau ac mae nifer o gamau a ffrydiau gwaith newydd wedi eu hychwanegu at y cynllun.

4.3 Mae Bwrdd y Rhaglen yn parhau i gyfarfod bob dau fis ac mae penodiad Rheolwr Rhaglen newydd wedi arwain at gynnydd yng nghyflymder datblygu, mireinio a chyflawni'r cynllun gweithredu.

4.3 Mae cyfarfod pellach Bwrdd y Rhaglen wedi ei drefnu ar gyfer 4ydd Ebrill.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu tuag at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae Bwrdd Rhaglen Dod yn Agosach ar y Gymuned yn parhau i danategu Datganiad Bwriad y Cyngor, 2009 a'r Weledigaeth y bydd 'Sir Ddinbych yn Awdurdod rhagorol yn darparu gwasanaethau effeithiol o safon uchel i'w holl ddinasyddion a'i chymunedau'.

**6. Beth fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio gwasanaethau eraill?**

Bydd Bwrdd Rhaglen Dod yn Agosach at y Gymuned yn cael adnoddau ariannol ychwanegol i hyrwyddo cyflwyniad y prosiect fel y nodwyd yn y Cynlluniau Tref.

Bydd nifer o'r prosiectau a'r ffrydiau gwaith a nodir yn y cynllun gweithredu yn cael eu gwasanaethu gan gyllid refeniw a chyfalaf cymunedol.

Mae arian ar wahân wedi ei roddi i Grwpiau Ardal yr Aelodau.

Mae cyllideb ar wahân ar gyfer cyllidebu Cyfranogol.

Mae gan y Cynllun Broceriaeth Ynni gyllid wedi ei ddyrannu ar wahân ar gyfer gwaith dichonolrwydd.

**7. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y medrwn ei wneud i'w lleihau?**

7.1 Mae risg gorfforaethol y byddai methu ag ymgynghori ac ymgysylltu'n effeithiol gyda chymunedau a gweithio gyda phartneriaid i ddelio â blaenoriaethau allweddol yn cael effaith niweidiol ar Gynllun Corfforaethol y Cyngor ac arwain ar lefelau boddhad is trigolion.

7.2 Gall ymgysylltiad heb strwythur arwain at gyflwyno gwasanaeth aneffeithiol, gan fod gwasanaethau yn cael eu llunio i ddiwallu anghenion pobl leol, a gallai niweidio enw da’r Cyngor.

7.3 Bod y Cyngor yn adnabod anghenion a dyheadau gwirioneddol y gymuned cyn sefydlu canlyniadau mesuradwy a’u hymgorffori yn y prosesau cynllunio busnes a rheoli perfformiad.

## 8. Pŵer i gymryd y Penderfyniad

Ddim yn berthnasol.

**Cyswllt:**
Tîm Rhaglen a Phrosiect
Ffôn 01824 706006